

Trywydd: Elfennau ffurfiol Cerddoriaeth

– Traw, curiad a rhythm, strwythur, ansawdd, gwead, tempo, dynameg

Trywydd: Elfennau ffurfiol Cerddoriaeth					
	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Gwybodaeth a Sgiliau	Gwybod/deall: - Elfennau cerddorol yw cydrannau arbennig mwyaf sylfaenol darn o gerddoriaeth - Caiff priodweddau darn o gerddoriaeth eu disgrifio gan ddefnyddio'r elfennau cerddorol - Mae'r curiad yn uned fesuradwy y mae pob darn o gerddoriaeth, fwy neu lai, yn bodoli neu'n parhau o'i mewn - Mae gan alaw siâp - Mae rhythm yn gyfres o seiniau a chyfnodau o dawelwch o hyd amrywiol - Mae gwrthrychau, offerynnau, lleisiau (a'u dyfeisiau digidol cyfatebol) yn cynhyrchu seiniau neu ansoddau unigryw - Mae dymameg yn disgrifio lefel sain darn o gerddoriaeth - Mae tempo yn disgrifio cyflymder y curiad - Strwythur yw'r elfen i ddisgrifio sut y caiff adrannau o seiniau eu trefnu ar ffurf linol mewn perthynas â'r curiad - Mae gwead yn disgrifio nifer yr haenau o sain sydd i'w clywed mewn cerddoriaeth Defnyddio/gallu: - Adnabod curiad mewn cerddoriaeth yn gywir - Nodi a yw traw yn uchel neu'n isel - Disgrifio traw sain mewn perthynas â seiniau eraill - Gwahaniaethu rhwng alaw a chyfeiliant - Dangos ymwybyddiaeth o siâp alawol - Dangos ymwybyddiaeth o rythm - Adnabod yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng amrywiaeth o weadau - Defnyddio geirfa gyffredin syml i ddisgrifio rhinweddau sain h.y. ansawdd, dymameg a thempo - Dangos ymwybyddiaeth syml o'r broses o gategoreiddio ansawdd, dymameg a thempo a gallu rhoi'r broses honno ar waith	Gwybod/deall: - Gellir grwpio'r curiad i batrymau rheolaidd o'r enw'r mesur a gellir ei ddisgrifio o ran niferoedd (2, 3 a 4) neu ddeublyg, triphlyg a phedwarplyg - Curiad cyntaf pob grŵp o guriadau rheolaidd, y mesur, yw'r curiad i lawr - Gall traw'r nodau mewn alaw aros yr un peth, neu symud i fyny ac i lawr mewn camau neu lamau - Rydym yn aml yn defnyddio llythrennau a geiriau yn y byd gorllewinol i nodi trawiau h.y. saith llythyren gyntaf yr wyddor, a sol-ffa cyweiraidd (do, re, mi, ffa, sol, la, ti) - Mae rhythm yn gyfres o seiniau a chyfnodau o dawelwch o hyd amrywiol, sy'n creu patrwm arbennig - Gellir categoreiddio gweadau - Mae gan ddymameg a thempo lawer o newidynnau ac maent yn aml yn cael eu disgrifio gan ddefnyddio geirfa Eidaleg Defnyddio/gallu: - Dangos ymwybyddiaeth gynyddol gywir o guriad mewn cerddoriaeth - Nodi a chyfleu amlinell cyfres o drawiau gan ddefnyddio geirfa briodol - Cymharu traw ansawdd mewn gwead ag ansawdd arall yn yr un gwead - Nodi ansoddau arbennig sy'n perfformio alaw a'r rheini sy'n perfformio'r cyfeiliant - Dangos ymwybyddiaeth gynyddol gywir o siâp alawol - Dangos ymwybyddiaeth gynyddol gywir o batrymau rhythmig - Dechrau categoreiddio ansoddau i grwpiau priodol - Defnyddio geirfa gerddorol gyffredin i ddisgrifio dymameg a thempo - Dangos ymwybyddiaeth syml o ddymameg a thempo a gallu eu rhoi ar waith	Gwybod/deall: - Gellir disgrifio'r mesur (deublyg, triphlyg, pedwarplyg) ymhellach fel mesur syml neu gyfansawdd, ac mae hyn yn diffinio'r curiad - Curiad olaf pob grŵp o guriadau rheolaidd, y mesur, yw'r curiad i fyny - Mewn alaw, caiff nodyn â thraw sy'n symud i wahanol nodyn â thraw fesul cam ei alw'n symudiad cysylltiol - Mewn alaw, caiff nodyn â thraw sy'n symud fesul llam i nodyn arall â thraw ei alw'n symudiad digyswllt - Fel arfer, mae alawon hir yn cynnwys brawddegau a phatrymau, a gellir defnyddio alawon byr/patrymau rhythmig fel ffigurau cyfeiliant - Enw'r bwlch rhwng un nodyn â thraw a gwahanol nodyn â thraw yw cyfwng - Mae ychwanegu nodyn â thraw ar amrywiol gyfyngau at nodyn â thraw sy'n bodoli eisoes yn creu harmoni - Bydd ychwanegu drôn at alaw yn creu harmoni - Caiff trawiau penodol eu grwpio gyda'i gilydd o ganlyniad i'r gydberthynas rhyngddynt, a chaiff y grwpiau hyn eu galw'n foddau a graddfeydd - Mae gan bob modd, a graddfa, gymeriad sain penodol, a gellir eu defnyddio i greu alaw a harmoni - Mae rhannau cyfeiliant yn aml yn creu cyfeiliant harmonig – fel arfer rydym yn nodi cyfeiliant harmonig fel cordiau - Gellir defnyddio gwead i ddisgrifio ymhellach sut mae'r haenau mewn cerddoriaeth yn rhyngweithio â'i gilydd - Caiff y rhan fwyaf o offerynnau cerddorol eu categoreiddio i deuluoedd, gan ddibynnu sut maent yn cynhyrchu sain Defnyddio/gallu: - Nodi harmoni a chyfeiliant harmonig, a'u disgrifio gan ddefnyddio geirfa gyffredin syml - Nodi ac adnabod offerynnau cerddorfaol cyffredin, offerynnau bandiau pop/roc cyffredin, offerynnau cyffredin sy'n dod o ddiwylliannau nad ydynt yn orllewinol - Adnabod a nodi nodweddion a newidiadau mewn cerddoriaeth o wahanol gyfnodau, mewn perthynas â'r elfennau a chan ddefnyddio geirfa gerddorol briodol - Ar draws amrywiaeth o genres, trafod pa mor effeithiol y defnyddiwyd elfennau cerddorol i gyfleu syniadau a theimladau, gan ddefnyddio geirfa briodol - Cymharu cerddoriaeth o amrywiaeth eang o ddiwylliannau a chymdeithasau, gan ddefnyddio terminoleg briodol mewn perthynas â'r elfennau cerddorol, a thrafod dewisiadau - Dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gynyddol o elfennau cerddorol mewn gweithgareddau ymarferol	Gwybod/deall: - Mae'r amrywiaeth o ffyrdd o ddefnyddio rhythmau, harmonïau, mesurau a gweadau wedi datblygu dros amser, ac o ganlyniad, wedi dylanwadu ac wedi effeithio ar newid - Yn gynyddol, mae arddulliau a genres yn mabwysiadu nodweddion arbennig arddulliau a genres eraill, gan addasu eu helfennau cerddorol eu hunain mewn ffordd llawn dychymyg o ganlyniad Defnyddio/gallu: - Nodi a thrafod sut y defnyddiwyd elfennau cerddorol i greu unrhyw arddull benodol, gan ddefnyddio amrywiaeth eang o arddulliau a genres - Dewis a chyfuno elfennau cerddorol i gyfleu ystyr, diffinio arddull, creu naws neu effaith benodol - Cymhwyso'r elfennau cerddorol gan ddangos hyder ac arloesedd cynyddol wrth archwilio a chreu - Adnabod rhinweddau elfennau cerddorol i greu amrywiaeth o gerddoriaeth gan ddangos amrywiaeth o syniadau a theimladau	Gwybod/deall: - Yn aml, caiff cymeriad cyffredinol darn o gerddoriaeth ei nodweddu gan ei gyweiredd, neu ei gywair - Cafodd elfennau cerddorol eu defnyddio a'u trin dros amser gan ddefnyddio lefel gynyddol o ddychymyg a deallusrwydd Defnyddio/gallu: - Adnabod a nodi cyweiredd cerddoriaeth o wahanol gyd-destunau a diwylliannau - Esbonio'n fanwl sut y caiff elfennau cerddorol eu defnyddio i greu nodweddion arbennig darn o gerddoriaeth, mewn darn o gerddoriaeth, ag ymwybyddiaeth o'r cywreinrwydd - Cymhwyso'r elfennau cerddorol gan ddangos hyder, arloesedd a chysondeb cynyddol, a rhywfaint o hunaniaeth bersonol wrth archwilio a chreu - Gwerthuso sut a pham y defnyddiwyd elfennau mewn cerddoriaeth o amrywiaeth o gyd-destunau a diwylliannau

Trywydd: Elfennau ffurfiol Cerddoriaeth					
	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Geirfa	Traw - Alaw neu diwn - Amlinell – siâp - Uchel ac isel Curiad a Rhythm - Curiad rheolaidd - Nodau hir, nodau byr, cyfnodau hir o dawelwch, cyfnodau byr o dawelwch Strwythur - Adrannau sy’n cyferbynnu ac yn ailadrodd Ansawdd - Pefrio - Craflyd - Disglair - Garw - Lleisiau Gwead - Alaw a chyfeiliant (cefndir) - Trwchus neu denau Tempo - Cyflym ac araf Dynameg - Uchel a thawel	Traw - Ailadrodd, camu a llamu - A, B, C, D, E, F, G - Do, re, mi, ffa, sol, la, ti - Brawddeg Curiad a Rhythm - Curiad i lawr - Barrau - Mesur neu ’guriadau mewn bar’ - Deublyg, triphlyg, pedwarplyg Strwythur - Tôn gron - Stroff a byrdwn - Ffurf stroffig - Galw ac ateb Ansawdd - Offerynnau taro di-draw - Offerynnau taro tiwniedig - Offerynnau digidol/electronig - Offerynnau acwstig - Lleisiau Dynameg - Forte – uchel - Piano – tawel - Crescendo – yn mynd yn uwch - Diminuendo – yn mynd yn dawelach Tempo - Allegro – cyflym - Adagio – hamddenol - Andante – cyflymder cerdded - Yn cyflymu neu’n arafu’n raddol/sydyn	Traw - Cam – cysylltiol - Llam – digyswllt - Alaw – brawddegau, riff, ostinato, efelychu, ailadrodd, cyferbynnu, ffanffer - Cyfwng, ystod, wythfed - Harmoni – braf, yn gwrthdaro, hapus, trist - Drôn - Cordiau – triadau mwyaf a lleiaf - Dilyniadau harmonig neu batrymau cordiau - Moddau – Doriaidd, Aeolaidd, Ionaidd - Graddfeydd – pentatonig, mwyaf, lleiaf Curiad a Rhythm - Curiad i fyny - Amser syml a chyfansawdd - Riff, ostinato Strwythur - Dwyran – AB - Teiran – ABA - Rondo – ABACA - Cyflwyniad - Diweddglo neu goda - Lŵp Ansawdd - Llinynnau - Offerynnau pres - Chwythbrennau - Offerynnau taro - Electronig/digidol - Unawd, deuawd, triawd, pedwarawd, pumawd, ensemble Gwead - Monoffonig - Homoffonig - Polyffonig - Unawd - Ensemble	Traw - Cordiau – cordiau diatonig, cordiau sylfaen (I, IV, V), y gydberthynas rhwng y tonydd a’r llywydd, diweddebau, tonau anharmonig, arpeggio/cord gwasgar - Alaw – ar ffurf graddfa, leitmotiff, motiff, tôn, hanner tôn - Graddfeydd – blues, octatonig, tôn gyfan, fframweithiau traw nad ydynt yn orllewinol e.e. raga - Dyfais alawol Curiad a Rhythm - Trawsacennu - Rheolaidd - Afreolaidd - Acen - Rhythmau swing Strwythur - Wedi’i gyfansoddi’n llwyr - Cân 32 bar – AABA - Blues 12 bar - Pont - Wythbar canol Ansawdd - Llais – soprano, alto, tenor, bas - Offerynnau diwylliannau brodorol Gwead - Rhythmau croes - Haenog - Canon - Grwndfas Tempo - Moderato – cymedrol - Accelerando – yn cyflymu - Rallentando – yn arafu Dynameg - Mezzo forte – cymedrol uchel - Mezzo piano – cymedrol dawel	Traw - Cordiau – gwrthdroeon, estyniadau o gordiau, cyseinedd ac anghyseinedd, arpeggio - Graddfeydd – blues, octatonig, tôn gyfan - Cyweiredd – mwyaf, lleiaf, moddol, digywair, trawsgyweirio - Alaw – anacrwsis, rhagdrawiad, dilyniant - Pedal - Thema - Cromatig - Harmoneg - Melismataidd Curiad a Rhythm - Trawsacennu - Shifflo - Tripledi Strwythur - Wedi’i gyfansoddi’n llwyr - Toriad - Llenwad Ansawdd - Llais – soprano, alto, tenor, bas - Offerynnau diwylliannau brodorol Gwead - Bas alberti - Bas sy’n cerdded - Llinell fas - Heteroffoni Tempo - Moderato – cymedrol - Accelerando – yn cyflymu - Rallentando – yn arafu Dynameg - Mezzo forte – cymedrol uchel - Mezzo piano – cymedrol dawel

Trywydd: Elfennau ffurfiol Cerddoriaeth					
	Cam Cynnydd 1	Cam Cynnydd 2	Cam Cynnydd 3	Cam Cynnydd 4	Cam Cynnydd 5
Profiadau a Nodweddion	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu e.e. perfformio, cyfansoddi, arfarnu - Defnyddio amrywiaeth o adnoddau gan gynnwys electronig/digidol i archwilio, ymateb, myfyrio a chreu gyda’r elfennau cerddorol - Gwrando ar amrywiaeth eang o arddulliau, genres a ffurfiau cerddorol a ddefnyddir mewn amrywiaeth o gyfryngau	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Gweithgareddau ymarferol gan ddefnyddio lleisiau, offerynnau cerddorol, seiniau digidol, dod o hyd i seiniau i’w harchwilio, ymateb, myfyrio a chreu, er mwyn gwneud a dangos dewisiadau a barnau hyddysg am elfennau cerddorol - Defnyddio’r llais (gan gynnwys canu caneuon â gwahanol rannau e.e. tôn gron), offerynnau (gan gynnwys offerynnau taro tiwniedig a di-draw), defnyddio’r corff fel offeryn taro a defnyddio ffynonellau sain eraill i berfformio fel rhan o ensemble (â mwy nag un rhan) mewn amrywiaeth o fesurau (gan gynnwys amser deublyg, triphlyg a phedwarplyg) a chan reoli tempo a dynameg - Parhau i ddefnyddio ffynonellau digidol e.e. Charanga, Chrome Music Lab, tabledi, dyfeisiau, Garageband, ThumbJam - Gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth o Gymru a thu hwnt	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Fel aelod o ensemble, perfformio caneuon/darnau offerynnol â gwahanol rannau (gwead) a gwahanol ffurfiau (strwythur) - Archwilio, gwaith byrfyfyr a chyfansoddi ag adnoddau acwstig ac electronig/ digidol. - Gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth wedi’i chreu gan bobl o wahanol leoedd a chyfnodau - Cymryd rhan mewn gweithgaredd grŵp y tu allan i amgylchedd yr ysgol sy’n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol cwbl amgen i dreftadaeth ddiwylliannol yr ysgol	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Fel aelod o ensemble, perfformio caneuon/darnau offerynnol ag amrywiaeth gynyddol o fesur, gweadau, o ystod ddatblygol o gyfnodau a diwylliannau - Archwilio, gwaith byrfyfyr a chyfansoddi ag adnoddau acwstig ac electronig/ digidol. - Gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth â hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol cryf yn ôl y bobl a wnaeth ei chreu - Gwylïo a gwrando ar berfformiadau cerddorol y tu allan i amgylchedd yr ysgol sy’n uniaethu â Chymru a’i thraddodiadau, ei hanesion a’i diwylliannau	- Mae’n hanfodol y caiff amrywiaeth o weithgareddau eu defnyddio sy’n rhoi’r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu - Fel aelod o ensemble, perfformio caneuon/darnau offerynnol cynyddol gymhleth o Gymru a thu hwnt, ac o amrywiaeth o gyfnodau - Archwilio, gwaith byrfyfyr a chyfansoddi ag adnoddau acwstig ac electronig/ digidol. - Gwrando ar amrywiaeth eang o gerddoriaeth â hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol cryf yn ôl y bobl a wnaeth ei chreu, sydd wedi cael dylanwad ac effaith hanesyddol, ac sy’n dangos gwreiddioldeb a dychymyg - Gwylïo a gwrando ar berfformiadau cerddorol y tu allan i amgylchedd yr ysgol sy’n uniaethu â Chymru a’i thraddodiadau, ei hanesion a’i diwylliannau